

Y Comisiwn Ystadegau Adroddiad Blynyddol 2003-2004

rhif cmd 6250

pris XXXX

© Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ar wahân i'r Arfbais Frenhinol a logos yr adran) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a ddim yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod hawlfraint y Goron ar y deunydd a rhaid rhoi union deitl y ddogfen. Dylai unrhyw ymholiadau am yr hawlfraint yn y ddogfen hon gael eu cyfeirio at The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ. Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Y Comisiwn Ystadegau / Statistics Commission

10 Great George Street

London SW1P 3AE

Ffôn: +44 (0)20 273 8008

Ffacs: +44 (0)20 273 8019

Ebost: statscom@statscom.org.uk

Gwefan: www.statscom.org.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd

ar wefan y Comisiwn yn:

http://www.statscom.org.uk/media_html/annuals/AR200304/ann_rep_eng-01.asp

Cynnwys

	Tudalen
Adroddiad y Cadeirydd	1
Pennod 1: Uchafbwyntiau	5
Pennod 2: Pwy ydym ni a beth yw'n cysylltiad ag eraill	7
Pennod 3: Arolwg o'r flwyddyn	15
Pennod 4: Pynciau trafod sy'n parhau	20
Pennod 5: Golwg ymlaen	31
Pennod 6: Amcanion a pherfformiad	36
Atodiad A: Llyfryddiaeth	39
Atodiad B: Geirfa	41
Atodiad C: Rhestr o acronymau	44
Datganiadau ariannol	45

Adroddiad y Cadeirydd

Deuthum i'n gadeirydd y Comisiwn Ystadegau yn dilyn fy rhagflaenydd, Syr John Kingman, ar 1 Mai 2003. Yn fuan wedyn, penodwyd Richard Alldritt fel ein Prif Weithredwr newydd. Bu'r cyfnod ers hynny yn un o weithgaredd di-ball, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos. Digwyddodd hyn yn rhannol oherwydd digwyddiadau allanol ac yn rhannol oherwydd rhaglen waith y Comisiwn ei hun i wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn gwybod y gall ymddiried mewn ystadegau swyddogol.

Yr angen am ddeddfwriaeth

Efallai mai'r un weithred fwyaf pwysig yn y flwyddyn fu cyhoeddi'n hadroddiad ar yr angen am ddeddfwriaeth i gryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol. Roedd y galw i fynd i'r afael â hyn wedi ei gyflwyno gan y Llywodraeth pan sefydlwyd y Comisiwn tua pedair blynedd yn ôl – ond gyda'r amod na ddylai'r gwaith ddechrau tan Haf 2002. Yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus, ymchwil a gomisiynwyd a gwaith manwl gydag adran Cyfreithiwr y Trysorlys, fe gyhoeddodd ni *Legislation to Build Trust in Statistics* ym Mai 2004. Yn ganolog i'r argymhellion oedd y dylai'r trefniadau presennol sy'n rhai gwirfoddol yn eu hanfod, y disgwylir i adrannau llywodraeth eu mabwysiadu, gael eu gwneud yn statudol ac yn orfodol ac, fel rhan o hyn, y dylai'r Comisiwn presennol gael ei newid yn un statudol.

Ni wnaed y penderfyniad i gynnig deddfwriaeth – er bod eraill hefyd wedi ei annog – yn ysgafn. Rydym yn dangos gydag enghreifftiau yn yr adroddiad hwn sut y mae llythyren ac ysbryd y Côt Arferion gwirfoddol presennol fel pe bai wedi ei anwybyddu, weithiau, gan wahanol adrannau llywodraeth. Fel Comisiwn, rydym wedi profi rhwystredigaeth wrth i'n ceisiadau am wybodaeth gael eu hanwybyddu weithiau neu gael cyffredinolli bras fel ymateb i'n hargymhellion. Er ein bod yn cydnabod bod y Llywodraeth wedi gwneud cynnydd go iawn yn y blynyddoedd diweddar drwy sefydlu'r syniad o annibyniaeth ystadegol, credwn bod y Côt Arferion presennol yn annigonol mewn rhai agweddau (er enghraifft wrth adael i Weinidogion benderfynu pa ystadegau sy'n atebol i'r Côt). Ond nid unig bwrpas ein hargymhellion yw sicrhau bod adrannau'n dilyn arferion da. Credwn y byddent hefyd yn gymorth i warchod Gweinidogion rhag beirniadaeth annheg. Yn ein barn ni, felly, mae'r achos dros ddeddfwriaeth yn un cryf.

Byddai'r ddeddfwriaeth sydd gennym mewn golwg nid yn unig yn gyfraniad effeithiol i wella ymddiriedaeth y cyhoedd ond byddai hefyd yn ymarferol ac yn osgoi newidiadau diangen o ran peirianwaith llywodraeth. Lle'r Llywodraeth yw penderfynu sut y dylid symud ymlaen â'n hargymhellion. Ond bydd y Comisiwn yn parhau cyn belled â bo angen i weithredu ei swyddogaethau presennol, egluro'i feddylfryd a phwyso am fframwaith statudol

Rôl y Comisiwn

Fel y mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ei wneud yn glir, gwelwyd y Comisiwn yn ystod y flwyddyn yn ehangu ystod ei weithgareddau. Fodd bynnag, roedd un o themâu canolog ein gwaith yn parhau, sef helpu i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael gwybodaeth gytbwys am y ffigyrau swyddogol y maent yn dibynnu arnynt mor aml. Mae'r penderfyniadau yn cynnwys nid yn unig y rhai sydd ym mhenawdau'r papurau newydd a datganiadau polisi pwysig. Maent yn cynnwys dosbarthu biliynau o bunnoedd i wasanaethau cyhoeddus bob blwyddyn, asesu a rheoli'r gwasanaethau hynny a manwl gyweirio aml ar bolisi cymdeithasol ac economaidd. Mae penderfyniadau o'r fath yn effeithio arnom *i gyd* drwy eu heffaith ar y gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus a rhai rhannau o'r sector preifat. Wrth gwrs dim ond un cyfraniad i benderfyniadau o'r fath sydd gan ystadegau swyddogol ond maent yn aml yn un hollbwysig.

Weithiau caiff ein gwaith ei weld yn debyg i waith rheoleiddiwr, gydag ystadegwyr y llywodraeth fel y rhai sy'n cael eu rheoleiddio. Mae hyn yn gamarweiniol. Mae'n wir ein bod yn annibynnol o adrannau llywodraeth ond rydym yn rhannu gydag ystadegwyr llywodraeth (ac eraill) y nod o wneud penderfyniadau cytbwys, wedi eu seilio ar ystadegau dibynadwy a gynhyrchwyd, a ddadansoddwyd ac a ledaenwyd drwy brosesau tryloyw a theg. Rydym yn ceisio gweithio gyda'r Ystadegydd Gwladol ac ystadegwyr adrannol i gyflawni hyn lle bynnag y gallwn.

Ein perspectif ni sy'n wahanol. Ein swyddogaeth yw edrych ar anghenion defnyddwyr ystadegau ar ran y llywodraeth a heb fod yn rhan o'r llywodraeth mewn ffordd wrthrychol a diduedd. Rydym yn dangos lle mae buddiannau'r cyhoedd heb boeni am y goblygiadau gwleidyddol a rheolaethol. Felly, er enghraifft, gallwn dynnu sylw at yr angen sylfaenol am un 'cofrestr cyfeiriad cenedlaethol' pendant sy'n cael ei ddiweddarau'n aml i gefnogi ystadegau demograffaid yn y dyfodol heb fod yn rhan o'r


berthynas rhwng y cyrff niferus y bydd angen eu cydweithrediad yn hyn o beth. Mae delio â'r materion rheolaethol yma yn fater i'r llywodraeth ei hun.

Roedd diffyg cofrestr cyfeiriad cenedlaethol pendant, problem ers tro byd i ystadegwyr, yn un o sawl pwnc a gododd yn ein gwaith ar Gyfrifiad 2001 yn Westminster. Byddwn yn parhau i ddadlau'n hachos dros ein hargymhellion ar hyn a materion eraill nes ein bod naill ai'n gweld cynnydd cadarn neu ein bod wedi'n hargyhoeddi nad yw'n fuddiol gwneud dim arall.

Wedi dweud hynny, mae'n pryderon yn mynd yn ehangach na phrosesau mewnol y system ystadegol. Mae lefel isel y dealltwriaeth am fathemateg ac ystadegau – hyd yn oed pethau syml fel canrannau – ymhlith llawer o bobl wedi dod yn fwyfwy eglur. Dangosodd Adroddiad Smith i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau yn Mawrth 2003 y diffyg go iawn mewn addysg cyffredinol yn y meysydd yma a lefelau isel rhifedd ym Mhrydain. Mae gennym ni, gyda nifer eraill, ran i'w gwneud i wella dealltwriaeth yn ogystal â sicrhau y gellir ymddiried mewn unrhyw ystadegau swyddogol.

Cred aelodau'r Comisiwn, er gwaethaf y rhwystredigaethau y cyfeiriwyd atynt uchod, ein bod wedi gwneud cyfraniad defnyddiol yn 2003-04. Ond, wrth i ystadegau swyddogol ddod yn fwy a mwy canolog i bolisi a lywiwyd gan dystiolaeth mewn llywodraeth a busnes, mae'n amlwg mai dim ond dechrau siwrne hir yw hon. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'n rôl ymhellach yn 2004-05.

Yn olaf, mae'n bleser gennyf ddiolch i Richard Alldritt a'i dîm bychan o staff am eu gwaith caled a'i blaengaredd wrth gefnogi'r Comisiwn yn y flwyddyn ddiwethaf. Bu eu perfformiad yn un ardderchog: mae fy nghydweithwyr ar y comisiwn yn ddiolchgar iawn iddynt. Ac rwy'n diolch i bawb mewn busnes, llywodraeth, y cyfryngau ac mewn prifysgolion a fu'n ein helpu yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.



David Rhind

Pennod 1: Uchafbwyntiau

Fe wnaeth ein gwaith ddod at eu gilydd adolygiadau oedd yn edrych ymlaen, astudiaethau oedd yn edrych yn ôl yn feirniadol ar faterion a gododd yn ystod y flwyddyn, a gweithredoedd i gefnogi'r Côt Arferion i Ystadegau Gwladol.

Buom yn cynghori ar y ffordd y mae ystadegau'n cael eu casglu a'u cyflwyno:

- Buom yn annog ystadegwyr y llywodraeth i ehangu ar y wybodaeth destunol a roddir ochr yn ochr ag ystadegau swyddogol fel bod defnyddwyr yn gallu barnu'n well faint i ddibynnu ar yr ystadegau wrth wneud penderfyniadau. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddi'n hadroddiad ymchwil ar ddibynadwyedd (gweler tud. 25)
- Dangosodd ein harolwg o ddiwygiadau ar ystadegau economaidd, er bod lle i wella, nad oedd cyfiawnhad drwyddi draw i feirniadaeth y cyhoedd o'r diwygiadau (gweler tud.25).
- Roedd ein hadroddiad ymchwil ar ragolygon yn y Cyfrifon Gwladol yn argymhell gwella monitro perfformiad modelau rhagweld, gwell cyfathrebu â defnyddwyr am rôl rhagolygon wrth gynhyrchu amcangyfrifon Cyfrifon Gwladol, a rhyddhau mwy o wybodaeth am y modelau a ddefnyddir (gweler tud.25).

Fe nodwyd gennym a buom yn edrych ar rai pryderon penodol gan ddefnyddwyr ystadegau:

- Gwnaethom asesiad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2001 i benderfynu ar y boblogaeth yn yr ardaloedd mwyaf 'anodd eu cyfrif', fel Westminster, a gwnaethom argymhellion a fydd, yn dilyn gwaith pellach gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, o gymorth i sicrhau bod y Cyfrifiad nesaf yn darparu amcangyfrifon mwy manwl gywir mewn ardaloedd o'r fath (gweler tud.26).

- Cynhaliom gyfarfodydd gyda defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr yn ystod y flwyddyn a mynd ar ôl amrywiaeth eang o bryderon a godwyd gyda ni ar bynciau yn cynnwys:
 - cyfraniadau cronfeydd pensiwn
 - mesur perfformiad y llywodraeth (a chefnogi cynhadledd Cyngor y Defnyddwyr Ystadegau (CDY) ar y pwnc hwn)
 - ystadegau economaidd rhanbarthol, yn ymateb i Adolygiad Allsopp

Gwnaethom argymhellion ar faterion llywodraethu:

- Gorffennwyd ein hadolygiad o'r angen am ddeddfwriaeth i helpu i adeiladu ffydd mewn ystadegau swyddogol, gan ddod i'r casgliad mai'r dull mwyaf ymarferol fyddai Côt Arferion statudol wedi ei lunio gan yr Ystadegydd Gwladol yn cael ei gefnogi gan Gomisiwn statudol a fyddai'n atebol i'r Senedd. Mae gweithredu ar hyn bellach yn nwylo'r Llywodraeth (gweler tud.20).
- Rhoddom dystiolaeth i'r Adolygiad Annibynnol ar Gysylltiadau'r Llywodraeth a gadeiriwyd gan Roberts Phillis; cafodd ein hargymhelliad i gyflwyno deddfwriaeth ei adlewyrchu yn argymhellion Adolygiad Phillis.
- Argymhellwyd gennym y dylai'r enw 'Ystadegau Gwladol' gael ystyr eglur a phenodol o hyn ymlaen a fyddai'n cael ei weld fel sicrhad cyhoeddus am ansawdd (gweler tud.24).
- Gwnaethom sylwadau ar y protocolau drafft a oedd yn cefnogi'r Côt Arferion a thrafod gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) weithredu a gorfodi'r Côt (gweler tud.21).

Dechreuom edrych am fesurau gwrthrychol o hyder y cyhoedd mewn ystadegau:

- Dechreuom gynllunio ymchwil gyda'r SYG ar fesur ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ffigyrau swyddogol a fydd yn cael ei ddatblygu yn y flwyddyn sydd i ddod (gweler tud.29).

Pennod 2: Pwy ydym ni a beth yw'n cysylltiad ag eraill

Mae'r Comisiwn Ystadegau yn gorff cyhoeddus an-statudol a noddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Fe'i sefydlwyd ym Mehefin 2000 i 'helpu i sicrhau bod Ystadegau Gwladol yn gredadwy ac yn ymateb i anghenion y cyhoedd', i 'roi cyngor annibynnol, dibynadwy a pherthnasol' ac wrth wneud hynny i 'ddarparu rheolaeth ychwanegol ar ansawdd a chywirdeb Ystadegau Gwladol'. Mae'n gweithredu'n agored ac yn annibynnol ar Weinidogion a chynhyrchwyr ystadegau

Y Comisiwn

Y Cadeirydd

Yr Athro David Rhind CBE

Mae David Rhind yn Is-Ganghellor a Phrifathro Prifysgol y Ddinas, Llundain. Mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol ac yn Gymrawd Anrhydeddus o'r Academi Brydeinig, a than 1998, ef oedd Cyfarwyddyd Cyffredinol Arolwg Ordnans, sefydliad mapio Prydain ac adran o'r llywodraeth. Bu'n aelod o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol. Yn y gorffennol cymerodd ran ganolog mewn adeiladu cronfeydd data ystadegol pwysig, yn arbennig data cyfrifiad. Fe'i penodwyd yn gadeirydd drwy'r broses gystadleuol arferol ym Mai 2003.

Y Comisiynwyr

Colette Bowe

Colette Bowe yw Cadeirydd Panel Defnyddwyr Ofcom. Mae hi hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd Thames Water Utilities, ac yn aelod o Fwrdd Cymdeithas Adeiladu'r Yorkshire ac o Grŵp Framlington. Mae'n hi Gadeirydd Cyngor y Frenhines Mary, Prifysgol Llundain a Chadeirydd Ymddiriedolwyr Alcohol Concern. Mae'n aelod o Gyngor Rheoli'r Sefydliad Cenedlaethol i Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac yn aelod bwrdd o'r Camden People's Theatre. Mae ganddi Ddoethuriaeth mewn Economeg.

Sir Kenneth Calman

Mae Syr Kenneth Calman yn Is-Ganghellor a Warden Prifysgol Durham. Cyn hynny ef oedd Prif Swyddog Meddygol yr Adran Iechyd a Chadeirydd Pwyllgor Gwaith Sefydliad Iechyd y Byd. Cyn hynny bu'n Brif Swyddog Meddygol yr Alban. Mae'n aelod o Gyngor Nuffield ar Bio-Foesegau. Cafodd ei hyfforddi fel llawfeddyg ac mae ganddo ddiddordeb arbennig ym maes triniaeth ac ymchwil canser.

Dame Patricia Hodgson

Mae'r Fonesig Patricia Hodgson yn un o Lywodraethwyr Sefydliad Wellcome, yn gyfarwyddwr anweithredol o'r Comisiwn Cystadleuaeth ac yn aelod o'r Pwyllgor dros Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Mae hi'n Gymrawd Cyswllt Gwadd i Goleg Newnham, Caergrawnt ac yn gyfarwyddwr anweithredol o'r GWR Group plc. Hyd at ddechrau 2004 hi oedd Prif Weithredydd y Comisiwn Teledu Annibynnol a chyn hynny, un o brif gyfarwyddwyr y BBC. Gwasanaethodd hefyd am chwe mlynedd fel aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chyfuniadau.

Janet Trewsdale OBE

Mae Janet Trewsdale yn Gadeirydd Cyngor Economaidd Gogledd Iwerddon ac yn Uwch Ddarlithydd mewn Economeg ym Mhrifysgol Queen's, Belfast. Mae hi'n Ystadegydd Siartredig. Mae'n gyn is-lywydd y Gymdeithas Ystadegau Frenhinol ac yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ystadegau (Gogledd Iwerddon). Bu'n cynrychioli'r Gymdeithas ar y Cyngor Defnyddwyr Ystadegau am 19 o flynyddoedd.

Derek Wanless

Mae Derek Wanless yn un o gyfarwyddwyr Northern Rock plc, Northumbrian Water Group plc a Busnes yn y Gymuned, ac mae'n Ymddiriedolydd ar y Gwaddoliad Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau. Yn 2002 bu'n adrodd ar wasanaethau iechyd y DU i Ganghellor y Trysorlys ac, yn 2004, ar Iechyd y Cyhoedd i'r Prif Weinidog, y Canghellor a'r Ysgrifennydd Iechyd. Bu hefyd yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bu'n gweithio i fanc NatWest am 30 mlynedd ac ef oedd Prif Weithredydd y Grŵp am saith mlynedd. Mae ganddo MA mewn Mathemateg o Brifysgol Caergrawnt ac mae wedi cymhwyso fel Aelod o Sefydliad yr Ystadegwyr.

Martin Weale CBE

Martin Weale yw Cyfarwyddydd y Sefydliad i Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac mae wedi ysgrifennu'n eang ar ystadegau economaidd. Bu'n darlithio mewn Economeg ym Mhrifysgol Caergrawnt, lle roedd yn Gymrawd o Goleg Clare. Cyn hynny, bu'n gweithio yn Swyddfa Ystadegau Malawi. Mae'n Gymrawd Anrhydeddus o Sefydliad yr Actiwariaid ac yn Drysorydd Ymddiriedolaeth Ymchwil Clefyd Alzheimer. Yn ddiweddar mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion yn deillio o brosiect a arweiniwyd ganddo ar gynhyrchu amcangyfrifon prydlon ar dwf economaidd yn Ardal yr Ewro.

Y Prif Weithredydd

Richard Alldritt

Richard Alldritt yw Prif Weithredydd y Comisiwn Ystadegau. Mae wedi gweithio mewn sawl adran llywodraeth yn cynnwys y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru lle'r oedd yn fwyaf diweddar yn Bennaeth Rheoli Hysbysrwydd a Gwybodaeth. Cyn hynny ef oedd Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn y Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad.

Ein pwyllgorau

Pwyllgor Archwilio

Derek Wanless (cadeirydd)
Glenn Hull*
John Smock*

Is-bwyllgor Ymchwil ac Adolygu

Martin Weale (cadeirydd)
Colette Bowe
Syr Kenneth Calman
Carolyn Sinclair*

Is-bwyllgor Deddfwriaeth

Y Fonesig Patricia Hodgson (cadeirydd)
Colette Bowe
Syr Kenneth Calman
Jane Hill*
Graham Mather*
Yr Athro David Rhind

Bwrdd Prosiect Adolygu'r Diwygiadau

Derek Wanless (cadeirydd)
James Mitchell**
Janet Trewsdale
Colin Mowl (arsyllwr y SYG)
Martin Weale**
Nodyn: roedd Martin Weale ar y Bwrdd Prosiect Adolygu'r Diwygiadau yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddydd yr NIESR.

Bwrdd Prosiect Adolygu Ystadegau Iechyd

Syr Kenneth Calman (cadeirydd)
Louise Carr**
Peter West**
Deana Leadbeter (Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Iechyd)
John Fox (arsyllwr yr Adran Iechyd)
Martin Weale
Carolyn Sinclair*

* ymgynghorwyr

** contractwyr prosiect.

Perthynas gyda budd-ddeiliaid

Y gymuned ddefnyddwyr

Bu creu cysylltiadau gyda'n defnyddwyr yn rhan allweddol o'n gwaith yn ein blynyddoedd cynnar. Mae wedi cymryd amser i sefydlu'r mathau cywir o berthynas a dod i wybod am bosibiliadau a chyfyngiadau'n swyddogaeth.

Gweinidogion

Un o brif swyddogaethau'r Comisiwn yw rhoi cyngor i Weinidogion. Y Gweinidog yr ydym yn darparu'r rhan fwyaf o gyngor iddo yw'r Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys, sydd hefyd yn Weinidog Ystadegau Gwladol, ac felly ef yw'r Gweinidog y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn atebol iddo. Rydym hefyd wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a'r Rhanbarthau am y Cyfrifiad a chofrestraucyfeiriad. Rydym yn ysgrifennu at Weinidogion eraill ar bynciau y maent

hwy'n gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag rydym yn ymwybodol mai ysbeidiol yw'n cyfathrebu gyda Gweinidogion a byddwn yn ceisio'i ddatblygu yn y dyfodol yn drafodaeth fwy cydlynol. Mae'n hadroddiad *Legislation to Build Trust in Statistics* yn disgrifio'r rôl ganolog sydd gan Weinidogion wrth benderfynu ar gwmpas a lle'r gwasanaethau ystadegol mewn llywodraeth. Felly mae angen i ni ddeall eu safbwyntiau fel defnyddwyr ystadegau ac fel perchnogion y gwasanaethau ystadegol ar draws llywodraeth.

Senedd y DU

Unwaith eto gwahoddwyd y Comisiwn i roi tystiolaeth gerbron Is-bwyllgor y Trysorlys i ateb cwestiynau ar ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2002-03. Roedd gan y pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y canlynol: a yw ffydd y cyhoedd mewn Ystadegau Gwladol wedi ei ysgwyd; sut y mae'r Comisiwn yn meithrin hyder y cyhoedd; gorfodi'r *Côd Arferion* a phrotocolau; y Cyfrifiad, yn cynnwys ei ddibynadwyedd, gwerth posibl cyfrif poblogaeth 2006, amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn; a diwygiadau i ddata economaidd. Roedd barn y Comisiwn y dylai 'Ystadegau Gwladol' fod yn nod i ddangos ansawdd yn cael ei rannu gan y pwyllgor.

Am y tro cyntaf, cawsom ein gwahodd hefyd i roi tystiolaeth i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Faterion Economaidd. Roedd diddordeb gan y pwyllgor mewn cael gwybod sut y mae'r Comisiwn yn ymateb i 'anghenion cyhoeddus' ac a yw rôl ymgynghorol y Comisiwn yn ddigon cryf.

Gweinyddiaethau datganoledig

Er bod gennym drefniadau ffurfiol gyda phob un o'r gweinyddiaethau datganoledig, sy'n adlewyrchu'n rôl ymgynghorol i'r DU yn gyffredinol, daethom yn fwyfwy ymwybodol yn ystod o flwyddyn o'r angen i'r Comisiwn dalu sylw mwy manwl i bynciau sy'n ymwneud yn benodol â phedair gwlad y DU. Mae enghreifftiau o bynciau o'r fath yn cynnwys: sut y dehonglir y *Côd Arferion* ym mhob gweinyddiaeth; sut y rheolir ymgynghori â defnyddwyr a pha mor effeithiol yw hyn; a yw anghenion y cwsmer yn cael eu cwrdd ac a yw anghenion y gweinyddiaethau datganoledig am ddata o Whitehall yn cael eu cwrdd. Yn Chwefror cawsom gyfarfod defnyddiol iawn gyda budd-ddeiliaid yn yr Alban a bwriadwn ddatblygu trafodaeth lawnach gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn y flwyddyn sy'n dod.

Adrannau llywodraeth

Mae adrannau llywodraeth yn ddefnyddwyr mawr o ystadegau swyddogol yn ogystal â chynhyrchwyr. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion, a'r gwasanaethau a ddarparant, rydym wedi gwneud ymweliadau achlysurol i gwrdd â'r staff ystadegol ac uwch reolwyr. Roedd ein hymweliad â DEFRA yn Efrog yn Medi 2003 yn un gwerthfawr gan iddo ehangu'r cyfathrebu ar y maes pwysig hwn o waith ystadegol. Cawsom hefyd gyfarfodydd defnyddiol gydag Uned Gyflawni'r Prif Weinidog a'r Uned Strategaeth.

Mae gan y Comisiwn gysylltiad ag adrannau llywodraeth mewn perthynas ag adolygiadau ymchwil (fel ein Hadolygiad o ystadegau iechyd), ac mewn dilyn pryderon a godwyd gyda ni (e.e. ystadegau ar bobl ifanc sy'n aildroseddu).

Mae'r Comisiwn yn cael cyfarfodydd achlysurol gyda phenaethiaid adrannau llywodraeth i drafod cynhyrchu ystadegau swyddogol. Yn 2003-04 cafwyd cyfarfodydd o'r fath gyda John Gieve, Ysgrifennydd Parhaol yn y Swyddfa Gartref a gyda Syr Nigel Crisp, prif weithredydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cyrff cyhoeddus

Ehangwyd ein cysylltiad â'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n ddefnyddwyr pwysig o ystadegau. Cyfarfu'r cadeirydd ag aelodau o Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn Rhagfyr 2003 ac rydym bellach yn cyfarfod yn flynyddol â Banc Lloegr i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Bu'r cadeirydd a chydweithwyr yn trafod pa mor ddigonol yw data pensiynau gydag Adair Turner, cadeirydd y Comisiwn Pensiynau; a pha mor ddigonol yw ystadegau i fesur perfformiad gwasanaeth cyhoeddus gyda Steve Bundred, prif weithredydd y Comisiwn Archwilio.

Cyngor y Defnyddwyr Ystadegau a Grwpiau Defnyddwyr

Cryfhaodd y Comisiwn ei berthynas â'r Cyngor Defnyddwyr Ystadegau (CDY) a grwpiau defnyddwyr yn ystod 2003-04. Yn ogystal â chyfarfod â chadeiryddion grwpiau defnyddwyr ar ddau achlysur, aeth comisiynwyr i gyfarfodydd gydag aelodau'r Grŵp Defnyddwyr Demograffig a'r Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Iechyd. Ym mis Tachwedd buom yn cefnogi cynhadledd y CDY, Mesur Perfformiad Llywodraeth, a ddenodd ystod eang o siaradwyr a chynrychiolwyr ac arwain at gryn drafodaeth adeiladol. Rhoddom gychwyn hefyd ar gynllun pwysig i ganfod blaenoriaethau grwpiau defnyddwyr ar gyfer gwelliannau i wasanaethau ystadegol ac i asesu a oedd lle i gael consensws barn. Rydym wrthi'n datblygu rhestr fer

gychwynnol y bwriadwn ei dilyn yn y flwyddyn sy'n dod. Mae'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol (y GYF) a grwpiau defnyddwyr bellach wedi dod i gytundeb ar sut y bydd y grwpiau'n gweithredu o dan 'ambarel' y Gymdeithas Frenhinol, gyda chefnogaeth grant gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Byddwn yn adolygu gyda'r GYF a grwpiau defnyddwyr y ffordd orau y gall y Comisiwn gefnogi'r trefniadau newydd.

Y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol

Er i ni drafod nifer o bynciau o ddiddordeb cyffredin gyda'r GYF, prif ganolbwynt ein trafodaethau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio oedd yr angen am ddeddfwriaeth ystadegol i feithrin ymddiriedaeth mewn ystadegau swyddogol. Byddwn yn parhau â'r ddadl wrth i ni symud ymlaen at gam nesaf hybu'n cynigion am ddeddfwriaeth.

Y Cyfryngau

Mae Is-bwyllgor y Trysorlys a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Faterion Economaidd wedi gwneud sylwadau am broffil cymharol isel y Comisiwn yn y wasg. Yn y misoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol yn y sylw a gafodd ein gwaith yn y cyfryngau a chryfhau'n rhyngweithio gyda newyddiadurwyr. Byddwn yn parhau i annog y ddeialog werthfawr hon.

Cynhyrchwyr Ystadegau Gwladol

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae gennym gysylltiad cyson â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), sef prif gynhyrchydd ystadegau swyddogol. Mae'r cadeirydd a'r Ystadegydd Gwladol yn cyfarfod yn ffurfiol bob chwarter i drafod pynciau sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Eleni roedd y pynciau yma'n cynnwys: yr angen am ddeddfwriaeth; ystadegau poblogaeth; y Cyfrifiad yn Westminster; a'r diwygiadau i ystadegau economaidd.

Cyflenwyr data

Er bod prif ganolbwynt ein gwaith gyda defnyddwyr a chynhyrchwyr ystadegau swyddogol, rydym yn poeni hefyd am y baich a roddir ar fusnesau a gwasanaethau cyhoeddus gan yr angen i lenwi ffurflenni ystadegol. Un mater penodol y bu i ni ei ddilyn gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain oedd yr anawsterau proses yr oedd cwmnïau yswiriant yn eu hwynebu wrth ddarparu ffigyrau i'r SYG ar gyfer cyfrifo data cyfraniadau pensiwn i'r DU.

Pennod 3: Arolwg o'r flwyddyn

Strategaeth a chynllunio

Sefydliad bychan yw'r Comisiwn ac mae angen cynllunio'r gwaith yn systematig i wneud yn siŵr bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio ar y pynciau hynny sydd fwyaf angen ei sylw. Mae'n bwysig sicrhau hefyd bod cydbwysedd da yn digwydd rhwng ymateb i faterion a godwyd ganddo a gwneud archwiliadau o'r ran ei hun. Rydym yn dechrau gyda disgrifiad byr o'n dull cynllunio er mwyn gosod y cyd-destun.

Buom yn cloriannu'n rôl a'n amcanion o'r newydd yn 2003-04. Ein swyddogaeth ganolog yw helpu i sicrhau bod ystadegau swyddogol yn ddibynadwy ac yn ymateb i anghenion y cyhoedd. Mewn termau mwy ymarferol mae hyn yn golygu helpu'r llywodraeth i wella'r gwasanaethau ystadegol a helpu i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a'r cyhoedd, yn cael gwybodaeth gytbwys a ddim yn cael eu camarwain gan ystadegau swyddogol.

Rydym yn canolbwyntio'n gwaith ar dair prif agwedd o wasanaethau ystadegol:

- ydi'r data addas yn cael ei gasglu?
- ydi'r negeseuon priodol o'r ystadegau yn cael eu cyfleu?
- oes trefniadau priodol yn cael eu dilyn i sicrhau: bod yn agored; yn ddiuedd; yn defnyddio'r fethodoleg orau; bod yr ystadegau ar gael yn gyflym ac i bawb; a bod dadansoddiad ystyrlon yn digwydd?

Ac rydym yn pwysu am:

- gydnabod, cloriannu a chwrdd ag anghenion holl ddefnyddwyr ystadegau yn amodol ar ystyriaethau gwerth am arian
- fod y prosesau ystadegol yn agored ar bob cam
- y defnydd o'r arferion rhyngwladol gorau gan holl adrannau'r llywodraeth yn ei holl waith ystadegol.

Yn ystod y flwyddyn datblygwyd y themâu bras yma yn gyfres fwy manwl o amcanion, strategaethau a chynlluniau yn y Strategy and Business Plan y gellir ei weld ar wefan y Comisiwn: www.statscom.org.uk Er mwyn cadw'r cynllun busnes

hwn yn berthnasol mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, rydym wedi ymrwymo i'w ddiweddarau bob chwarter o fis Ebrill 2004.

Cyflwynodd y Comisiwn hefyd drefniadau newydd i roi gwybod i bobl am ein cynnydd. Erbyn hyn ceir crynodebau ar ein gwefan o hanes a sefyllfa bresennol pob un o brif geinciau ein gwaith – tua 30 ar unrhyw un adeg. Wrth wneud hyn, mae'r Comisiwn yn rhoi sylwedd i'w ymrwymiad i fod mor agored ag y bo modd yn ei waith. Mae'r rhan fwyaf o ohebiaeth y Comisiwn gydag adrannau llywodraeth ac eraill eisoes yn cael ei gyhoeddi beth bynnag. Cafodd ein Publication Scheme, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ei gymeradwyo yn ystod y flwyddyn.

Effaith

Yn y pen draw, pobl eraill fydd yn barnu gwerth gwaith y Comisiwn a'i effaith. Fodd bynnag, ein hasesiad ni yw ein bod, yn 2003-04, wedi llwyddo i dynnu sylw at bynciau pwysig ond wedi cael llai o lwyddiant nag y dymunem mewn gwthio cyflymder gwelliannau i ystadegau swyddogol. Cymysg hefyd oedd ein llwyddiant mewn lleddfu pryderon y cyhoedd am ddibynadwyedd a defnyddioldeb ystadegau swyddogol. Roedd y canlyniadau amrywiol hyn yn un o'r ystyriaethau y tu cefn i'n galwad ddiweddar am fframwaith statudol. Byddai fframwaith o'r fath yn rhoi mwy o amlygrwydd i'r materion yma o fewn Whitehall ac yn ein helpu i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn effeithiol.

Ond, rydym yn credu i ni fod yn effeithiol o ran cadw adrannau llywodraeth i feddwl am ddefnyddwyr ystadegau, y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth; a hefyd meddwl am lle y mae buddiannau'r cyhoedd, a phwysigrwydd dehongliad ystadegol llawn a gonest. O ran hynny, mae bodolaeth y Comisiwn yn helpu i sicrhau'r rheiny y tu allan i'r llywodraeth bod system ystadegol y DU, y mae'r Comisiwn ei hun yn rhan annatod ohoni, yn wyladwrus ac yn ymatebol i fudd y cyhoedd.

Argymhellion

Bu i ni dynnu sylw at yr achos dros nifer o welliannau i wasanaethau ystadegol a gwneud argymhellion penodol. Caiff rhai o'r enghreifftiau canlynol eu trafod yn fanylach yn y bennod nesaf:

- Côt Arferion mwy cadarn a statudol
- camau pellach i atal, ond hefyd i warchod adrannau rhag, awgrymiadau di-alw-amdanynt o 'sbin'
- ystyriaeth fwy systematig o anghenion defnyddwyr
- mwy o wybodaeth gyhoeddus am ddibynadwyedd neu gywirdeb ystadegau swyddogol pan gânt eu cyhoeddi
- gwell amcangyfrifon (poblogaeth, pensiynau, ymfudo)
- dulliau newydd o wneud cyfrifiadau poblogaeth
- cofrestr cyfeiriad cenedlaethol.

Fe'i gwnaed yn eglur gan y Comisiwn ei fod am weld yr Ystadegydd Gwladol, sydd hefyd yn bennaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn cael mwy o ddylanwad dros waith ystadegol sy'n digwydd ar draws adrannau llywodraeth eraill. Byddai'n cynigion am ddeddfwriaeth yn cryfhau ei sefyllfa drwy ei wneud yn gyfrifoldeb statudol arno ef i baratoi a gorfodi Côt Arferion statudol.

Adeiladu ymddiriedaeth

Yn ogystal â gwneud argymhellion penodol am welliannau a mynd i'r afael â'r angen am ddeddfwriaeth, fe gymeron ni nifer o gamau yn ystod y flwyddyn i gefnogi ymddiriedaeth mewn ystadegau swyddogol ac yn y rheiny sy'n eu cynhyrchu:

- Rydym yn argymhell y dylai'r disgrifiad presennol 'Ystadegau Gwladol' olygu'n unig bod y Côt Arferion Ystadegau Gwladol wedi cael ei ddilyn. Ni ddylid ei ganiatau i fynd yn enw brand neu barhau i'w gyfyngu i is-gyfres o ystadegau swyddogol. Ni welwn yr angen am ddwy set o safonau – y naill ar gyfer Ystadegau Gwladol a'r llall, fwy niwlog, ar gyfer Ystadegau eraill. Trwy ddiffiniad, bron, y rheiny heb y teitl yw'r rhai mwyaf ansicr.
- Rydym wedi tynnu sylw'n aml at y ffaith bod casglu nifer o setiau o ystadegau swyddogol yn gofyn am farn broffesiynol ac nid yw'n fater syml. Hyd yn oed wedyn, ni ellir ystyried unrhyw ystadegau yn 'berffaith'. Felly rydym wedi annog adrannau llywodraeth i wella'r wybodaeth y maent yn darparu am ddibynadwyedd ystadegau ar adeg cyhoeddi fel bod gan wneuthurwyr penderfyniad a defnyddwyr eraill well ddirnadaeth o faint, ac ym mha fodd, y gallant ddibynnu arnynt. Gall ystadegau fod yn gamarweiniol am sawl rheswm, hyd yn oed pan maent yn dechnegol gywir. Mae'n bosibl nad ydynt yn golygu'r hyn y mae defnyddwyr yn cymryd eu bod yn ei olygu. Yn aml

mae angen i bawb ond y defnyddwyr mwyaf arbenigol a phrofiadol gael cyngor eglur a manwl gan ystadegwyr llywodraeth i osgoi maglau. Credwn y gellid ac y dylid rhoi mwy o gymorth o'r fath.

- Dangosodd ein hadolygiad mawr o ddiwygiadau i ystadegau economaidd, a gyhoeddwyd ddechrau Ebrill 2004 – er bod rhai gwelliannu y gellid eu gwneud – bod beirniadaeth y wasg o ddiwygiadau i'r prif ystadegau economaidd yn annheg ar y cyfan. Ond roeddem yn pryderu, fodd bynnag, am oedi mewn cyhoeddi bwriad i ddiwygio amcangyfrifon Cynnyrch Mewnwladol Crynswth sef CMC (oherwydd y darganfyddiad bod gweithgareddau troseddol yn ystumio'r ffigyrau masnach). Rydym mewn trafodaethau gyda'r Ystadegydd Gwladol am y ffordd orau i cydbwyo sensitifrwydd y farchnad a thryloywder.
- Bu ein hadroddiad ar Gyfrifiad 2001 yn Westminster o gymorth i egluro i leygwyr yn lle yn y prosesau amcangyfrif yr oedd rhywfaint o ansicrwydd yn debygol o godi yn ardaloedd enwedig 'anodd eu cyfrif' yn y wlad (yn nodweddiadol, ardaloedd canol dinas, yn arbennig rhannau o ganol Llundain). Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad bod yna ansicrwydd real a dwfn a'r unig ffordd y gellir mynd i'r afael â hyn oedd drwy wneud gwelliannau sylfaenol i gofrestrau gweinyddol.
- Dechreuom waith ar ymchwil, ar y cyd â'r SYG, i sut i fesur ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ffigyrau swyddogol – ac felly roi syniad o'r angen am weithredu pellach. Mae hwn yn dir sy'n dechnegol anodd ond disgwyliwn gyhoeddi rhywfaint o ganlyniadau yn y flwyddyn i ddod.

Materion a godwyd gan eraill

Mae cyfran helaeth o waith y Comisiwn yn cael ei dreulio'n archwilio i bryderon a godwyd gyda ni gan ystod eang o bobl â diddordeb – ymchwilwyr, gwleidyddion, newyddiadurwyr, academwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Mae detholiad o'r pynciau a ddaethpwyd i sylw'r Comisiwn, ac y buom ni'n gweithredu arnynt, yn dangos pa mor eang ydynt:

- ystadegau cyfraniadau pensiwn
- cymharu perfformiad ysgolion gramadeg a chyfun
- aildroseddu ieuencid
- materion Cyfrifiad ac ymfudo
- amcangyfrifon poblogaeth
- argaeledd data iechyd

- rhestrau aros y Gwasanaeth Iechyd
- graddfeydd seren y Gwasanaeth Iechyd
- addasu data'n dymhorol
- defnyddio ystadegau i fonitro perfformiad y llywodraeth
- dibynadwyedd ystadegau masnach
- cyfrifo'r Mynegrif Prisiau Adwerthol.

Pan mae rhywbeth yn cael ei godi gyda'r Comisiwn mae fel arfer yn:

- gofyn i'r adran(nau) llywodraeth perthnasol am wybodaeth
- penderfynu a yw'r mater yn debyg o fod yn fater difrifol ac, os felly, un sy'n dod o dan faes y Comisiwn. Os yw'r ddau beth yn wir yna byddwn yn:
 - gofyn am farn arbenigwyr annibynnol, neu wneud ymchwil mewnol, cyn dod i gasgliad y byddwn yn ei gyhoeddi mewn papur neu adroddiad
 - trafod gyda Gweinidogion ac adrannau nes bod y Comisiwn yn fodlon na fyddai gweithredu pellach ar ei ran yn briodol.

Prosiectau mwy

Tra bod llawer o'r materion a godwyd gyda, neu gan, y Comisiwn yn cael eu trafod drwy ohebiaeth a pharatoi papurau pwyllgor, mae rhai yn angen ymchwil fwy sylweddol. Mae'n arferol i'r Comisiwn gyflogi arbenigwyr allanol i gynorthwyo ag ymchwil o'r fath ond mae ganddom bellach hefyd dîm ymchwil bychan ein hun a all wneud rhywfaint o'r ymchwil yn fewnol a gweithredu fel 'cwsmer deallus' i waith a wneir gan gontractwyr. Roedd y pynciau y gwnaed ymchwil sylweddol arnynt yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- methodoleg Cyfrifiad 2001 a'r gwersi i'w dysgu o hynny
- materion yn ymwneud â dibynadwyedd ystadegau am asedau cronfeydd pensiwn a chyfraniadau iddynt
- pa mor ddigonol y mae ystadegau iechyd mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr
- materion sy'n dylanwadu ar yr achos am ddeddfwriaeth, yn cynnwys arferion ystadegol rhyngwladol ac effaith deddfwriaeth ystadegol bresennol
- deall blaenoriaethau defnyddwyr o ran gwelliannau neu ychwanegiadau i ystadegau swyddogol ac i ba raddau y ceir consensws (y cam cyntaf).

Pennod 4: Pynciau trafod sy'n parhau

Mae'r bennod hon yn ystyried y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar nifer o bynciau pwysig a fydd yn parhau i mewn i 2004-05:

- yr angen am ddeddfwriaeth i helpu i adeiladu ymddiriedaeth
- cydymffurfio â Chôd Arferion Ystadegau Gwladol
- trefniadau rheoli'r Mynegrif Prisiau Adwerthol
- ystyr 'Ystadegau Gwladol'
- dibynadwyedd ystadegau
- diwygiadau i ystadegau economaidd
- cyfrifiad poblogaeth
- cofrestr cyfeiriad gwladol
- ystadegau iechyd
- meincnodi hyder y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol
- ystadegau pensiynau
- mesur perfformiad y sector cyhoeddus
- data rhanbarthol ac is-ranbarthol.

Yr angen am ddeddfwriaeth i adeiladu ymddiriedaeth

Safbwynt y Comisiwn

Rydym am weld cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn mynnu bod adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth yn dilyn côd arferion statudol newydd ar gyfer ystadegau swyddogol, yn cael ei orfodi gan gomisiwn statudol sy'n adrodd yn ôl i'r Senedd, ac yn dod yn lle'r Comisiwn Ystadegau an-statudol presennol.

Gwahoddwyd y Comisiwn gan y Llywodraeth i adolygu'r angen am ddeddfwriaeth pan gyflwynwyd trefniadau newydd i gryfhau rheolaeth ystadegau swyddogol ym Mehefin 2000 – yr adolygiad i'w wneud ar ôl i'r trefniadau newydd fod mewn grym am ddwy flynedd.

Gwnaeth is-bwyllgor o'r Comisiwn, a gadeiriwyd gan y comisiynydd y Fonesig Patricia Hodgson, astudiaeth gynhwysfawr (gweler www.statscom.org.uk/media_pdfs/reports/LegislationToBuildTrust.pdf). Roedd yn tynnu ar drafodaethau helaeth gyda'r rhai â diddordeb, ymgynghoriadau cyhoeddus,

ymchwil a gomisiynwyd, a chyngor ymgynghorwyr cyfreithiol. Ein prif gasgliad, sy'n cadarnhau (ond yn ymhelaethu gryn dipyn) casgliadau adolygiadau eraill diweddar ar y pwnc, oedd bod angen deddfwriaeth. Mae'r fframwaith an-statudol ar gyfer ystadegau swyddogol a gyflwynwyd yn 2000 wedi bod o fudd ond heb fynd yn ddigon pell. Byddai sail statudol yn rhoi'r DU ochr yn ochr â'r nifer fawr o wledydd sydd eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth o'r fath.

Cydymffurfio â'r Côt Arferion Ystadegau Gwladol presennol

Safbwynt y Comisiwn

Rydym am weld y Côt presennol yn cael ei barchu a'i orfodi ar draws holl adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth. Yn wir, rydym am iddo gael ei gryfhau, ei ehangu a'u gefnogi gan gyfraith. Ar y pwnc o ryddhau Ystadegau i Weinidogion a swyddogion ymlaen llaw – sef un o ddarpariaethau mwy dadleuol y Côt – rydym am weld hyn yn dod i ben yn raddol dros amser er mwyn osgoi unrhyw awgrym bod yr ystadegau wedi bod yn agored i ddylanwad neu ddefnydd gwleidyddol cyn eu rhyddhau.

Rydym yn cydnabod bod y dasg o weithredu'n llwyr y Côt gwirfoddol presennol a'r holl brotocolau ategol ar draws y llywodraeth yn anghyflawn. Hyd yn oed ble mae Gweinidogion wedi cytuno y dylai'r Côt fod yn gymwys i gyfresi arbennig o ystadegau, gall y broses weithredu fod yn y camau cynnar ohyd. Er mwyn monitro cynnydd, fe awgrymon ni yn gynnar yn y flwyddyn y byddai o gymorth cael cynlluniau gweithredu, gydag amserlenni, yn y gwahanol adrannau, i ni ac i'r rheiny oedd â rhan yn eu gweithredu.

Datblygodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol Gynllun Gweithredu drafft a gafodd ei groesawu gennym fel un eglur a hawdd ei ddeall. Roeddem yn cytuno â'r angen i gynhyrchu canllaw cyffredinol llai i'r Côt a'r protocolau i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr. Felly buom yn holi sut y byddai arferion da a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu hadnabod a'u bwydo'n ôl i mewn i'r gweithredu. Nid ydym wedi'n argyhoeddi bod y camau addas i gyd ar gyfer gweithredu'r Côt wedi eu dilyn nag yn gwbl effeithiol eto. Byddwn yn archwilio'r mater ymhellach.

Atebolrwydd

Pwnc sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Côd gwirfoddol presennol yw'r angen am eglurder o ran graddau a natur atebolrwydd penaethiaid adran proffesiwn i'r Ystadegydd Gwladol. Mae'r pwnc hwn yn fwy cymhleth oherwydd nad yw atebolrwydd gweision sifil fel arfer yn mynd y tu allan i'w hadrannau eu hunain ac mae gwahaniaethau rhwng atebolrwydd proffesiynol a mathau eraill o atebolrwydd yn creu problem ar y gorau. Rydym wedi trafod y materion yma gyda'r SYG ac yn deall eu bod yn datblygu datganiad ar y cyd gydag adrannau llywodraeth eraill.

Hawl gweld cyn-cyhoeddi

Yn ystod y flwyddyn, cryfhaodd y Comisiwn ei safbwynt ar y mater o hawl gweld cyn-cyhoeddi i ystadegau swyddogol – dyna'r cytundeb lle y caiff Gweinidogion a rhai swyddogion hyd at bum diwrnod i ystyried ystadegau cyn eu bod yn gyhoeddus.

Rydym yn cydnabod, mewn achosion fel hawl gweld cyn-cyhoeddi ystadegau wedi eu seilio ar ddata gweinyddol, nad yw'r mater hwn yn un syml. Fodd bynnag mae'r Comisiwn wedi ei argyhoeddi y dylid cael gwared â hawl gweld cyn-cyhoeddi dros amser er mwyn osgoi unrhyw awgrym bod yr ystadegau wedi bod yn agored i ddylanwad neu ddefnydd gwleidyddol cyn eu rhyddhau. Dadleuir bod angen i Weinidogion a'u hymgynghorwyr wybod beth y mae'r ffigyrau'n ei ddangos cyn eu cyhoeddi fel eu bod yn gallu ymateb yn syth. Ond cred y Comisiwn bod yna wrth-ddadl a honno'n un gryfach: sef bod caniatáu hawl gweld cyn-cyhoeddi cynnar i Weinidogion a'u hymgynghorwyr yn tanseilio hyder yng ngwrthrychedd yr ystadegau a'r hyn a ddywedir amdanynt pan gânt eu cyhoeddi. Gellid dod â hyn i ben yn raddol, gan ddechrau gyda chanlyniadau arolygon sampl a gadael y materion mwy anodd o hawl gweld cyn-cyhoeddi cynnar i ganlyniadau sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol nes bod y problemau cychwynnol wedi eu datrys.

Ystadegau gweinyddol

Mae llawer o'r ystadegau mwyaf dadleuol a sensitif yn dod allan o systemau gweinyddol – cofnodion heddlu a llys, cofnodion y Gwasanaeth Iechyd, cofnodion ysgol ayb – sydd fel arfer yn cael eu rheoli y tu allan i reolaeth uniongyrchol gwasanaethau ystadegol y llywodraeth ganolog, o leiaf hyd nes y camau olaf o'u crynhoi yn ddata ystadegol. Rydym am weld trafod ystadegau o'r fath yn cael eu hystyried yn fwy penodol o dan y Côd Arferion fod nad yw enw da ystadegau yn cael

ei danseilio gan ddefnydd gwleidyddol – go iawn neu ymddangosiadol – o'r ffigyrau hynny cyn iddynt fynd i mewn i gyhoeddiadau swyddogol.

Torri'r Côt

Ers i'r Côt Arferion presennol ddod i rym, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac ystadegwyr llywodraeth mewn adrannau eraill, wedi bod yn rhybuddio'r Comisiwn am achosion lle'r amheuir bod y Côt yn cael ei dorri ac am gamau eraill a gymerir gan adrannau – fel gosod ystadegau y tu allan i gwmpas y Côt – a allai danseilio ymddiriedaeth. Buom yn meddwl yn ddwys a ddylem wneud sylwadau cyhoeddus ar yr achosion sy'n peri pryder i ni a daethom i'r casgliad bod yn rhaid gwneud hynny er mwyn dangos natur y broblem. Wrth wneud hyn, nid cosbi adrannau llywodraeth yn gyhoeddus yw'n bwriad, ond yn hytrach tynnu sylw at y broblem a chael sicrhad y bydd y Côt yn cael ei barchu yn y dyfodol. Dyma'r mathau o weithredu gan adrannau y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn erbyn llythyren a/neu ysbryd y Côt:

- briffio newyddiadurwyr am ystadegau cyn iddynt gael eu cyhoeddi
- rhyddhau ffigyrau (annibynadwy) yn erbyn cyngor proffesiynol ystadegwyr
- rhyddhau ffigyrau sy'n farchnad-sensitif heb ganiatâd wedi i newyddiadurwr gael gafael arnynt ym amhriodol (y torri yma yw caniatâu i unigolion heb ganiatâd weld ystadegau yn hytrach na'u cyhoeddi wedyn)
- cyhoeddi ystadegau gweinyddol yn gynnar am resymau gwleidyddol gan gorff a oedd wedi cael hawl gweld cyn-cyhoeddi.

Cafwyd enghreifftiau penodol o achosion lle mae'r Comisiwn yn credu bod achosion o'r mathau a restrir uchod wedi digwydd:

Y Gymdeithas Heddlu Metropolitan yn rhyddhau Ystadegau Trosedd Chwarterol ac Ystadegau Trosedd Gwn yn gynnar – un o nifer o sefydliadau a gafodd hawl gweld cyn-cyhoeddi

- gan y Swyddfa Gartref (Hydref 2003).
- Sylwadau gwleidyddol ar raglen *Today* Radio 4 am beth y byddai'r ffigyrau'n eu dangos cyn cyhoeddi nifer y ceisiadau am loches gan y Swyddfa Gartref (Mai a Tachwedd 2003).
- Rhyddhau heb ganiatâd (cyn eu cyhoeddi) ffigyrau gwerthiant adwerthol wedi i newyddiadurwr gael gafael arnynt yn amhriodol (Hydref 2003).

- Briffio answyddogol wedi ei seilio ar ffynonellau gwybodaeth reoli yn arwain at adroddiadau yn y wasg am restrau aros y Gwasanaeth Iechyd cyn eu cyhoeddi (Ebrill 2003).
- Ystadegau am oedi cyn rhyddhau cleifion o ysbytai yn yr Alban yn cael eu dyfynnu yn y *Sunday Times* ddau ddiwrnod cyn eu cyhoeddi wedi i gopi 'rhagweld' o'r adroddiad gael eu ddsbarthu' eang o fewn y Gwasanaeth Iechyd ac awdurdodau lleol (Medi 2003).
- Adroddiadau yn y wasg am sylwadau gan Weinidog yn yr Alban am ystadegau ar drais mewn ysgolion cyn eu cyhoeddi (Ionawr 2004).
- Gweinidog yn yr Alban yn rhyddhau ystadegau ar lefel ddatgrynhöol yr oedd ystadegwyr wedi ymrwymo i beidio â'u cyhoeddi oherwydd nad oeddent yn ddibynadwy ar y lefel yna (Ionawr 2004).
- Symud amseriad cyhoeddi Mynegrif Prisiau Tai Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog fel na fyddai'n gwrthdaro â datganiad gwleidyddol – nid yw'r mynegrif yn dod o dan y Côt Arferion mewn gwirionedd ond cred y Comisiwn nad oedd hyn yn cyd-fynd ag ysbryd y Côt (Medi 2003).
- Ysgrifennodd y Comisiwn at yr Adran Iechyd yn Rhagfyr 2003 am storïau yn y wasg a oedd yn awgrymu bod dulliau cynhyrchu 'graddau seren' ysbytai wedi cael eu dylanwadu am resymau gwleidyddol – eto nid yw'r graddau seren yn dod o dan y Côt Arferion yn llwyr ond dylai'r egwyddorion fod yr un fath.

Nid y materion o ddylanwad gwleidyddol neu ddefnydd rhy gynnar yw'r unig agweddau o'r Côt sy'n peri pryder i'r Comisiwn ond mae'r rhain yn arbennig o sensitif ac felly'n bwysig i ymddiriedaeth y cyhoedd. Nid yw'r Comisiwn wedi ei lwyr argyhoeddi bod pob adran llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi Côt sydd yn ei hanfod yn un gwirfoddol. Byddwn yn parhau i dynnu eu sylw at achosion sy'n haeddu hynny – a'u cyhoeddi, yn ogystal â phwyso am Gôt statudol

Trefniadau rheoli'r Mynegrif Prisiau Adwerthol (RPI)

Safbwynt y Comisiwn

Nid yw'r Comisiwn Ystadegau wedi ei argyhoeddi bod budd i'r cyhoedd mewn trin y Mynegrif yma yn wahanol i ystadegau allweddol eraill. Credwn bod hyn yn tueddu i danseilio hyder bod y mynegrif yn cael ei drafod mewn ffordd hollol ddiuedd.

Gan gydnabod y gallai newidiadau i fethodoleg y Mynegrif fynnu cael eu gwarchod gan scrwtini ffurfiol ac annibynnol, cred y Comisiwn mae pwyllgor ymgynghorol sefydlog, sy'n adrodd yn ôl yn gyhoeddus i'r Ystadegydd Gwladol, yw'r ffordd orau i gyflawni hyn.

O dan y *Framework for National Statistics*, cyfrifoldeb Canghellor y Trysorlys yw cwmpas a diffiniad y Mynegrif Prisiau Adwerthol (RPI) – yn wahanol i ystadegau economaidd allweddol eraill a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, lle mae materion o'r fath yn cael eu penderfynu gan yr Ystadegydd Gwladol. Mae'r Comisiwn wedi galw am eglurhad manwl ar swyddogaeth y Canghellor nifer o weithiau.

Fe godwyd y mater gennym yng nghyd-destun ein ymateb i'r protocol drafft ar Consultation Arrangements Between the National Statistician and UK Government Ministers ond nid oedd y ddogfen derfynol yn sôn o gwbl am rôl y Canghellor. Cafwyd llythyr oedd o gymorth gan yr Ystadegydd Gwladol ym Mai 2003 a oedd yn egluro'r hyn a olygid gan 'cwmpas a diffiniad' a 'methodoleg' ond bod "y gweithdrefnau y mae'r Canghellor yn eu dilyn i gyflawni ei swyddogaeth yn fater iddo ef". Erys cwestiynau am y rheswm dros rôl arbennig y Canghellor a sut y mae'n cael ei chyflawni. Credwn mai cael pwyllgor ymgynghorol sefydlog i'r Mynegrif, sy'n adrodd yn ôl yn gyhoeddus i'r Ystadegydd Gwladol, yw'r ffordd orau i warchod annibyniaeth newidiadau mewn methodoleg.

Ystyr 'Ystadegau Gwladol'

Safbwynt y Comisiwn

Dylid defnyddio 'Ystadegau Gwladol' i gyfeirio'n unig at gynnyrch ystadegol sydd wedi eu paratoi a'u rheoli yn unol â Chôd Arferion Ystadegau Gwladol.

Yn ystod ein hadolygiad o'r angen am ddeddfwriaeth ystadegol daethom i'r casgliad pendant mai dim ond un ystyr ddylai fod i'r term 'Ystadegau Gwladol' fel y mynegir yn *Safbwynt y Comisiwn*. Ar hyn o bryd mae'r term 'Ystadegau Gwladol' wedi ei ddefnyddio mewn datganiadau swyddogol gyda sawl ystyr gwahanol yn dibynnu ar y cyd-destun. Er enghraifft, mae'r *Framework for National Statistics* a gyhoeddwyd ym Mehefin 2002, yn ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd – fel is-gyfres o ystadegau swyddogol y mae Gweinidogion yn dymuno i'r Côt Arferion fod yn gymwys iddo, fel

enw brand i'r prif gynnyrch ystadegol, fel syniad bras am yr ystadegau sydd eu hangen i lywio trafodaeth genedlaethol ac fel fframwaith o werthoedd a phrosesau moesegol. Cred y Comisiwn bod yna bellach rywfaint o ddryswch am ei ystyr a'i arwyddocâd ac mae am iddo olygu un peth yn unig – bod ystadegau sy'n dwyn yr enw 'Ystadegau Gwladol' wedi eu paratoi a'u rheoli yn unol â'r Côt Arferion (ac mae yna dystiolaeth gyhoeddus mai felly y dylai fod).

Dibynadwyedd ystadegau

Safbwynt y Comisiwn

Hoffem weld cynnyrch ystadegol yn cynnwys datganiadau cryno, a ysgrifennwyd gan ystadegwyr y llywodraeth, am eu dealltwriaeth o'r prif ddefnyddiau sy'n debygol o gael eu gwneud o'r data ac unrhyw sylwadau ar gyfyngiadau'r data mewn perthynas â'r defnyddiau hynny.

Argymhellodd *Reliability Study Report* y Comisiwn y dylai swyddfeydd ystadegol mewn adrannau llywodraeth wella cyfathrebu â defnyddwyr allanol am bwrpas cynnyrch ystadegol ac am eu cyfyngiadau a'r defnydd priodol ohonynt. Mae'r syniad o ddibynadwyedd mewn perthynas ag ystadegau swyddogol yn un cymhleth – gallant fod yn ddibynadwy i un diben ond nid i un arall – ac mae angen egluro hyn yn well, gan dynnu sylw at elfennau goddrychol dibynadwyedd yn ogystal ag unrhyw fesurau meintiol. Mae'r syniad yma o ddibynadwyedd yn dipyn ehangach na 'cywirdeb' neu 'fanylder' yn unig. Mae'n gofyn ar i gynhyrchwyr ystadegau dalu sylw manwl at ddefnydd tebygol y ffigyrau a rhoi cyngor fel bo angen. Yn ein hymwneud ag adrannau llywodraeth drwy 2003-04 rydym wedi pwysleisio'r pwysigrwydd a roddwn i gyfathrebu mwy agored am ddibynadwyedd.

Diwygiadau i ystadegau economaidd

Safbwynt y Comisiwn

Nid yw mwyafrif mawr y diwygiadau i ystadegau economaidd allweddol yn ddim mwy na rhan annatod, arferol ac angenrheidiol o waith ystadegol, sy'n caniatau i wybodaeth a ddiweddarwyd gael ei gynnwys mewn amcangyfrifon a gyhoeddwyd. Ni ddylid cymysgu hyn gyda chywiro gwallau. Roedd llawer o'r feirniadaeth yn y cyfryngau ar ddiwygiadau yn 2003-04 yn anwybodus ac yn afresymol.

Ym mis Hydref 2003 cyhoeddodd y Comisiwn y bwriad i adolygu'r diwygiadau a wneir i gyfresi economaidd allweddol yn dilyn beirniadaeth gan y cyfryngau a phryder am effaith y gwaith ar Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr a'r Ddinas. Gwnaed yr arolwg hwn i'r Comisiwn gan Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn ar ddiwygiadau i ystadegau economaidd yn Ebrill 2004.

Un o'r prif gasgliadau oedd bod llawer o'r feirniadaeth gyhoeddus yn afresymol. Mae diwygiadau yn anochel os yw amcangyfrifon cychwynnol ffigyrau economaidd pwysig yn mynd i fod ar gael yn ddigon cynnar i'r rheiny sydd eu hangen i wneud polisi neu wneud penderfyniadau. Mae diwygiadau cyffredin a rhai a gyhoeddwyd ymlaen llaw, ar gyfer cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf, yn arferol ac ni ddylid cymysgu hyn gyda chywirow gwallau.

Diwygiadau i'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) oedd yn peri'r pryder mwyaf ymhlith rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae record y DU ar ddiwygiadau i'r GDP yn y blynyddoedd diwethaf yn cymharu'n ffafriol – mewn rhai achosion yn ffafriol iawn – â gwledydd eraill. Er yn cydnabod y gellid gwella ar rai o'r prosesau ystadegol, ni fyddai hyn wedi cael effaith fawr ar raddfa'r diwygiadau.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi angen am fwy o eglurder yng Nghôd Arferion presennol Ystadegau Gwladol mewn perthynas â'r union amser y dylid gwneud datganiad cyhoeddus am newid eithriadol a oedd ar fin cael ei wneud.

Gwneud rhagolygon yn y Cyfrifon Gwladol

Safbwynt y Comisiwn

Mae gwneud rhagolygon yn chwarae rhan bwysig wrth gynhyrchu amcangyfrifon cynnar a phrydlon o gyfanredau Cyfrifon Gwladol allweddol. Mae angen asesu yn fwy systematig y modelau rhagweld a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrifon cynnar GDP, gwneud datblygiad methodolegol pellach, a chyflwyno mwy o dryloywder.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad *Forecasting in the National Accounts* yn Rhagfyr 2003. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod rhagweld yn chwarae rhan bwysig wrth gynhyrchu amcangyfrifon prydlon o'r prif ystadegau cyfanredol macro-

economiaidd. Roedd yn argymhell gwell monitro perfformiad y modelau rhagweld, gwell cyfathrebu â defnyddwyr a rôl rhagolygon wrth gynhyrchu amcangyfrifon, a rhyddhau mwy o wybodaeth am y modelau a ddefnyddiwyd.

Dychwelodd y Comisiwn at y pwnc o ragweld yn y cyfrifon gwladol yn yr adroddiad ar ddiwygiadau i ystadegau economiaidd (uchod). Roedd un o'r tri prif newidiadau i GDP yn 2003 a archwiliwyd yn yr adroddiad hwnnw i'w briodoli'n rhannol i broblemau gyda rhagweld cynnyrch adeiladu. Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r SYG asesu'n fwy systematig berfformiad y modelau rhagweld a ddefnyddir wrth lunio GDP.

Gwnaeth hefyd nifer o argymhellion manwl wedi eu hanelu at wella rhagolygon, yn gyffredinol ac ar gyfer cynnyrch adeiladu yn arbennig, drwy fwy o dryloywder a mabwysiadu arferion gorau.

Y Cyfrifiad Poblogaeth

Safbwynt y Comisiwn

Gwnaed Cyfrifiad 2001 yn ôl y dulliau gorau oedd ar gael i gyfrifiad traddodiadol, ond methodd y dull ag ymdopi'n foddhaol â'r amgylchiadau mwyaf eithriadol. Mae angen dull mwy amlochrog o amcangyfrif y boblogaeth yn y dyfodol.

Mewn sawl ffordd Cyfrifiad 2001 oedd yr un mwyaf soffistigedig i'w gynnal ym Mhrydain erioed. Eto dangosodd tystiolaeth a archwiliwyd gennym ar y defnydd o fethodoleg Cyfrifiad Un Rhif yn ardal Westminster yn 2001, pan fo'r cyfrif cychwynnol yn colli cymaint o'r boblogaeth breswyl ag y gwnaeth yn Westminster (tua chwarter y boblogaeth), na all hyn yn oed technegau amcangyfrif soffistigedig wneud iawn am absenoldeb data dibynadwy i ddechrau. Mewn geiriau syml, mae yna ormod o ansicrwydd am y canlyniadau terfynol yn yr ardaloedd 'mwyaf anodd eu cyfrif'.

Arweiniodd y gwaith a wnaed gan, ac ar ran, y Comisiwn Ystadegau, at y casgliad bod canlyniadau Cyfrifiad 2001 yn Westminster yn llai dibynadwy na'r hyn a awgrymwyd gan y cyfnodau hyder a gyhoeddwyd. Roedd yr amrywiaethau yma ond yn dangos yr ansicrwydd oedd yn gysylltiedig â'r sampl yn y broses. Roedd yno ffynonellau ansicrwydd eraill hefyd ond roedd y rheiny'n fwy anodd eu mesur. Nid oedd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddigon o wybodaeth ddibynadwy ar gael i roi amcangyfrif hyderus yn yr achos hwn. Credwn bod y problemau amcangyfrif yn

waeth oherwydd bod y syniad o 'boblogaeth breswyl arferol' yn arbennig o anodd ei fesur yng nghanol Llundain.

Mae rhai o'r sefydliadau sy'n poeni fwyaf am y broblem hon, yn fwyaf amlwg Cyngor Dinas Westminster a nododd ei bryderon gyda'r SYG ym mis Hydref 2002, yn siŵr bod yr amcangyfrifon swyddogol i'w hardaloedd yn rhy isel. Oherwydd yr ansicrwydd yn yr amcangyfrifon, ni allwn ddweud a ydynt yn gywir ai peidio ond roedd yn gwaith yn awgrymu bod amcangyfrifon gwreiddiol y SYG ar ben isaf yr ystod debygol. Bydd ymchwil pellach sy'n cael ei wneud gan y SYG ar hyn o bryd (a fydd yn cael ei gyhoeddi tua canol 2004) yn taflu mwy o oleuni ar y cwestiwn hwn.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad interim ar Gyfrifiad 2001 yn Westminster ym mis Hydref 2003 a derbyniodd ymateb y Llywodraeth rhyw saith mis yn ddiweddarach yn Ebrill 2004. Caiff yr ymateb hwn ei grynhoi yn erbyn ein hargymhellion isod. Nid yn unig yr oedd dipyn yn hwyrach na'r disgwyl ond roedd nifer o'r ymatebion i argymhellion unigol wedi eu geirio mewn termau cyffredinol iawn. Byddwn yn diweddarau a therfynu'n hadroddiad cyn gynted â bo'r SYG wedi gorffen yr ymchwil pellach.

Argymhellion y Comisiwn ar y Cyfrifiad ac ymateb y Llywodraeth

Argymhellion y Comisiwn	Ymateb y Llywodraeth
Dylai'r SYG edrych eto ar amcangyfrifon poblogaeth Westminster.	Bydd hyn yn cael ei ystyried wedi ymchwil pellach gan y SYG (sy'n cael ei symud ymlaen nawr).
Dylid gwneud cyfrifiad poblogaeth yn 2006, o leiaf yn yr ardaloedd a oedd yn fwyaf anodd eu cyfrif yng Nghyfrifiad 2001. Mae hyn yn debyg o olygu rhai ardaloedd yng nghanol Llundain.	Mae'r SYG wedi ymrwymo i "edrych ar opsiynau ar gyfer darparu meincnod poblogaeth canol-degawd effeithiol i Lundain ac o bosibl ardaloedd dinesig mawr eraill...".
Dylid edrych ar ansawdd data ymfudo fel mater o frys.	Yn cytuno bod angen datblygiad pellach a gwnaed rhai cynigion ond byddai eu gweithredu "rai blynyddoedd i ffwrdd" os o gwbl.
Dylai cofrestr cyfeiriad gwladol fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth.	"yn gweithio... i ddatblygu ffordd gytûn ymlaen".

Dylai'r SYG wneud mwy i egluro'u dulliau.	"Mae'r SYG wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw..." Soniwyd am rai cynigion penodol.
Dylai'r Llywodraeth edrych ar ei ofynion data yn fwy systematig.	"yn cytuno ei bod yn bwysig bod gofynion data yn cael eu trafod yn systematig".
Dylid datblygu mesurau poblogaeth eraill yn hytrach na'r boblogaeth 'breswyl arferol'.	"yn cytuno bod angen dybryd am hyn". Mae'r SYG wedi ymrwymo i archwilio'r pwnc hwn ymhellach.

Cofrestr cyfeiriad gwladol

Safbwynt y Comisiwn

Dylai un cronfa ddata genedlaethol o gyfeiriadau sy'n cael eu diweddarau'n aml i'w defnyddio gan bob awdurdod cyhoeddus fod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth.

Roedd ansawdd y rhestrau cyfeiriad a oedd ar gael i'w defnyddio yng Nghyfrifiad 2001 yn sicr yn cyfrannu at y graddfeydd ymateb isel mewn rhai ardaloedd ac at wendidau mewn trefniadau amcangyfrif. Mae yna nifer o wahanol restrau o gyfeiriadau ar gael ar lefel leol a chenedlaethol y gellir eu defnyddio i gefnogi gwaith ystadegol ond mae ganddynt i gyd eu diffygion. Byddai un cronfa ddata genedlaethol o gyfeiriadau sy'n cael ei diweddarau'n aml i'w defnyddio gan bob awdurdod lleol yn gam mawr ymlaen. Mae ymdrechion i ddatrys hyn dros y ddegawd ddiwethaf wedi eu llesteirio gan nifer yr adrannau llywodraeth a chyrrff eraill oedd â rhan yn hyn; roedd y rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, y Swyddfa Bost, Arolwg Ordnans, Cofrestrfa Dir Ei Mawrhydi, SYG a chyrrff y sector preifat. Bydd y Comisiwn yn parhau i gymryd pob cyfle i bwysu ar y llywodraeth i ddatrys y problemau a rhoi trefniadau mewn lle a fydd yn cynhyrchu cronfa ddata gadarn.

Adolygiad o ystadegau iechyd

Safbwynt y Comisiwn

Mae ystod eang o sefydliadau, nid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn unig, yn dibynnu ar ystadegau iechyd fel cyfraniad at wneud polisi a phenderfyniadau. Mae angen ystyried pob defnyddiwr, a defnydd wrth gydbwysu costau a manteision

crynhoi ystadegau. Nid yw ystadegau iechyd yn unigryw yn hyn o beth ond cawsant eu dewis fel y maes astudiaeth cyntaf.

Yn ystod 2003 adolygodd y Comisiwn y ffordd y mae'n cynnal ymchwil ar y graddau y mae Ystadegau Gwladol, o ran eu sylwedd a mynediad atynt, yn cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr. Bu Is-bwyllgor Ymchwil y Comisiwn, o dan gadeiryddiaeth y comisiynydd Martin Weale, yn archwilio dilyniant o feysydd ystadegol bras, gan ddechrau gydag iechyd. Yn dilyn seminar ystadegau iechyd y Comisiwn ar 29 Gorffennaf 2003, chwiliodd yr Is-bwyllgor am bartner i ymgymryd â'r arolwg o ystadegau iechyd a rhoddwyd y contract hwn i Gonsortiw m Economeg Iechyd Efrog. Maent yn gweithio gyda chefnogaeth bwrdd prosiect sy'n cael ei gadeirio gan y comisiynydd Syr Kenneth Calman. Disgwylir i'r prosiect adrodd yn ôl yn haf 2004. Unwaith i'r arolwg cychwynnol gael ei gwblhau, bydd cynlluniau'n cael eu gwneud fel bo angen i fynd ar ôl ei ganfyddiadau yn ddyfnach.

Meincnodi hyder y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol

Safbwynt y Comisiwn

Mae ennyn hyder y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol yn hanfodol er cael y wladwriaeth i weithio'n effeithiol a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol. Oni bo gwneuthurwyr penderfyniadau yn ymddiried yn yr ystadegau byddant yn eu hanwybyddu – a bydd hyn yn golygu cost economaidd uchel yn y pen draw.

Gan edrych ar y pwnc o hyder y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol yn gyffredinol, mae'r tabl isod yn rhoi syniad am sut y mae'r Comisiwn yn gweld y ffactorau allweddol ar hyn o bryd a beth yw'r posibiladau o ran gweithredu.

Ffactor	Yr hyn y mae'r Comisiwn yn ei ddilyn neu'n ei gefnogi
Ansicrwydd ynglŷn â faint o broblem sydd yna	Llunio mesurau meintiol ayb i ddangos pa mor ddifrifol yw'r broblem o ymddiriedaeth y cyhoedd; casglu at ei gilydd datganiadau Seneddol a storïau papur newydd.
Hyder yn annibyniaeth y peirianwaith swyddogol	<ul style="list-style-type: none">• Prosesau sy'n amlwg dryloyw.• Côt statudol newydd a Chomisiwn statudol i archwilio a barnu ar ganfyddiadau (angen deddfwriaeth sylfaenol).• Dim rhyddhau cynnar; pob cyhoeddiad wedi ei fynygeio.

	<ul style="list-style-type: none"> Defnydd priodol a chyfyngedig ar y term 'Ystadegau Gwladol'.
Hyder yng ngallu proffesiynol ystadegwyr ac eraill sy'n casglu data	Arolygon cyfnodol gydag elfen annibynnol, yn gysylltiedig ag Adolygiadau Ansawdd a wneir gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, gyda chynrychiolaeth draws-adrannol ac allanol.
Ydi'r ystadegau yr hyn y mae defnyddwyr eu hangen?	Ei amlygu yn yr adroddiad deddfwriaeth. Trefniadau ambarel y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol. Dilyn Adolygiadau Ansawdd. Trafodaeth gyda grwpiau defnyddwyr.
Ydi'r defnyddwyr yn deall yr ystadegau?	Gwell disgrifiadu o ystadegau a'r cyfyngiadau i'w defnyddioldeb mewn cynnyrch swyddogol. Gwell dealltwriaeth ystadegol gan y rhai sydd yn y canol (e.e. newyddiadurwyr), gwleidyddion a defnyddwyr olaf drwy drafodaeth (a nod addysgiadol tymor hir)
Lleihad yn ymddiriedaeth y cyhoedd yn y llywodraeth yn gyffredinol a sgil-ffaith hyn	Deddfwriaeth sylfaenol i gadw materion ystadegol ar wahân i rai'r llywodraeth ganolog cyn belled ag y bo modd.

Fel ag y nodwyd yn gynt yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn yn bodoli i helpu i sicrhau bod ystadegau swyddogol yn ddibynadwy ac yn ymateb i anghenion y cyhoedd. Yn ddelfrydol hoffem gael gwybodaeth am y lefel bresennol o ymddiriedaeth, ond nid yw asesu'r lefel o ymddiriedaeth gyhoeddus yn hawdd. Mae'n debyg o gael ei ddylanwadu gan ddigwyddiadau o ddydd i ddydd fel yr adroddir hwy yn y cyfryngau yn ogystal ag effeithiau tymor hirach wrth i hyder yn y llywodraeth godi a gostwng.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn gweithio ar gyfres o ymarferion i:

- lunio dull mwy systematig i asesu hyder y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol (ar y cyd â'r SYG)
- cynnal cyfweiliadau gyda'r rheiny yr ydym yn eu hystyried yn 'lunwyr barn'
- deall yn well sut y mae barn y cyhoedd yn cael ei ffurfio.

Amser a ddengys pa mor effeithiol y bydd y gwaith hwn o ran arwain at ffyrdd o wella'r lefel o hyder, ond dylai o leiaf roi gwell dealltwriaeth i ni o'r grymoedd sydd ar waith.

Data pensiynau

Safbwynt y Comisiwn

Mae'r Comisiwn yn dal i boeni am ansawdd y wybodaeth ystadegol sydd ar gael am gyfraniadau i gronfeydd pensiwn. Byddwn yn parhau i annog pob ochr i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion a fydd yn cefnogi trafodaeth gyhoeddus gytbwys ar faterion darpariaeth pensiwn.

Cafwyd cryn drafodaeth ymhlith y cyhoedd ar ystadegau cyfraniadau pensiwn yn 2003-04 oherwydd y pryderon y gallai rhai trosglwyddiadau ariannol rhwng cwmnïau sy'n rheoli cronfeydd pensiwn fod yn cael eu datgan wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel pe baent yn gyfraniadau newydd. Mae gan hyn y potensial i ddylanwadu'n sylweddol ar y ddadl ar y defnydd o gynlluniau pensiwn preifat ac mae hyn, yn ei dro, yn bwysig yng nghyd-destun polisi pensiwn.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnal adolygiad o'r ystadegau yma ac mae wedi rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn ac eraill am ei gynnydd. Mae'r Comisiwn hefyd wedi trafod y materion gyda'r Comisiwn Pensiynau a Chymdeithas Brydeinig yr Yswirwyr. Byddwn yn ail-asesu'r sefyllfa a'r posibiladau i weithredu pan fydd y Comisiwn Pensiynau yn cyhoeddi ei adroddiad interim ym Medi 2004.

Mesur perfformiad y sector cyhoeddus

Safbwynt y Comisiwn

Dylai targedau llywodraeth amlwg gael eu mesur gan ystadegau swyddogol sy'n addas i'w diben a sy'n cael eu cynhyrchu i safonau'r Côt Arferion Ystadegau Gwladol.

Mae'r defnydd o ystadegau swyddogol i greu dangosyddion ar gyfer asesu a rheoli perfformiad gwasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu'n fawr yn y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd nifer o adroddiadau ar y pwnc yn 2003-04. Gwnaeth y Comisiwn gyfraniad i ddau yn arbennig. Roedd y naill gan Bwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus *On Target? Government by Measurement* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003 a'r llall gan Weithgor o'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol ar *Performance Monitoring in the Public Services*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2003.

Prif nod y Comisiwn gyda'r defnydd o ystadegau i fesur perfformiad yw y dylai'r ffigyrau a ddefnyddir fod yn ddigonol i'r dasg ac na ddylent gamarwain rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus na'r cyhoedd. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, ni ddylid gosod targedau meintiol os nad oes cytundeb ar y ffordd o fesur cynnydd. Ar adegau mae'r brwdfrydedd i osod targedau i wasanaethau cyhoeddus wedi mynd o flaen y data oedd ar gael i fonitro'r targedau hynny, ac mae hyn yn tanseilio hyder mewn ystadegau a llywodraeth. Yn yr un modd, pan fo systemau dangosyddion yn mynd yn rhy fanwl a chymhleth, gallant beidio â chael eu defnyddio a chreu dryswch yn hytrach na goleuni. Mae'r Comisiwn wedi cyfrannu at y drafodaeth ar y rhain a materion cysylltiedig a bydd yn parhau i wneud hynny, gan drafod gyda chyrrff arbenigol fel y SYG, y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio ble bynnag y bo modd.

Data rhanbarthol ac is-ranbarthol

Safbwynt y Comisiwn

Credwn y dylai'r Llywodraeth gymryd camau cyflym i weithredu argymhellion Adolygiad Allsopp Review of Statistics for Economic Policymaking.

Cred y Comisiwn bod y Llywodraeth wedi bod yn araf yn y gorffennol i sylweddoli dyfnder y galw, a'r angen real, am ystadegau economaidd rhanbarthol ac is-ranbarthol dibynadwy. Roeddem yn croesawu felly yr adroddiad gan Christopher Allsopp, economegydd blaenllaw, a gomisiynwyd yn 2003 gan Ganghellor y Trysorlys sy'n argymhell gwelliannau helaeth. Rydym yn amau mai'r rheswm bod y Llywodraeth wedi methu â mynd i'r afael â'r pwnc hwn yn foddhaol yn y gorffennol yw bod gwella ystadegau rhanbarthol yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol a byddwn yn pwysu i'r adnoddau hynny fod ar gael. Rhan o'r rhaglen hon yw'r angen am eglurder ynglŷn â lle y dylai fod data cyson ar draws y DU a lle y dylid rhoi'r pwyslais ar gwrdd ag anghenion lleol.

Pennod 5: Golwg ymlaen

Mae Strategaeth a Chynllun Busnes y Comisiwn (gweler

www.statscom.org.uk/media_html/about/business_plan-01.asp) yn nodi pedair

amcan lefel uchel:

- Darparu cyngor annibynnol a dibynadwy er mwyn gwarchod ansawdd ac integriti ystadegau swyddogol, gyda golwg arbennig ar warchod buddiannau y gwneuthurwyr penderfyniadau sy'n dibynnu ar yr ystadegau yma.
- Helpu i wella ansawdd a pherthnasedd ystadegau swyddogol drwy nodi meysydd sydd angen eu gwella a phwyso am weithredu.
- Helpu i wella hyder y cyhoedd yn system ystadegol y DU drwy gynorthwyo gwella'r gwasanaethau a thrwy ddathlu llwyddiant.
- Ymgymryd â swyddogaethau'r Comisiwn yn ddiuedd a defnyddio adnoddau yn effeithiol, effeithlon ac yn ddarbodus.

Mae gan y Comisiwn nifer o gynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod y bydd yn eu dilyn yng nghyd-destun yr amcanion yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo'r achos dros ddeddfwriaeth sylfaenol fel ag yr argymhellwyd yn ein adroddiad ym Mai 2004, *Legislation to Build Trust in Statistics* .
- Cyfrannu at yr adolygiad o'r *Framework for National Statistics* sydd yn anstatudol.
- Cwblhau ein hadroddiad ar Gyfrifiad 2001 yn Westminster a dilyn yr argymhellion a wnaed i'r Llywodraeth yn yr Adroddiad Interim ym mis Hydref 2003. Y blaenoriaethau yw:
 - sicrhau bod cyfrif poblogaeth canol-Cyfrifiad yn digwydd mewn ardaloedd 'anodd eu cyfrif' allweddol
 - ceisio cael gweithredu mwy brys ar wella data ymfudo
 - pwysu am weithredu ar gofrestr cyfeiriad gwladol

- sicrhau cytundeb ar fesurau poblogaeth gwahanol (yn hytrach na 'preswyllo fel arfer').
- Gweithredu ar ein hadolygiad o ddiwygiadau i ystadegau economaidd, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2004, drwy gael gwleidyddion allweddol, newyddiadurwyr a sylwebwyr i drafod gydag arbenigwyr technegol er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o'r materion. Sicrhau bod y prosesau ystadegol yn parhau i wella.
- Adrodd yn Haf 2004 ar adolygiad y Comisiwn o ystadegau iechyd – dyma'r cyntaf mewn cyfres o adolygiadau maes pwnc eang.
- Cydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac eraill ar yr angen am fesurau pellach i sicrhau bod ystadegau cyfraniadau i gronfeydd pensiwn yn ddibynadwy ac yn ddigonol i gefnogi datblygiad polisi pensiynau.
- Ymgynghori â'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol a defnyddwyr ystadegau swyddogol y tu allan i'r llywodraeth ar eu blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau ac ychwanegiadau i ystadegau swyddogol a'u cefnogi i ddatblygu consensws.
- Dechrau gwaith ar olrhain y 'defnydd a wneir' o ystadegau swyddogol o ran gwneud penderfyniadau sylweddol y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth, gyda golwg ar ddatblygu a rhannu dealltwriaeth lawnach o union werth a gwerth ychwanegol posibl ystadegau swyddogol. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer dadansoddi gwerth am arian buddsoddiad newydd mewn cynnyrch ystadegol.
- Dilyn y camau a gynigiwyd yn adroddiadau'r Comisiwn ar wneud rhagolygon yn y Cyfrifon Gwladol ac ar ddiwygiadau i ystadegau economaidd er mwyn gwella rhagolygon ar gyfer Cyfrifon Gwladol.
- Parhau i bwysu am ragor o wybodaeth gan ystadegwyr y llywodraeth am ddibynadwyedd a defnyddioldeb ystadegau a gyhoeddir.
- Archwilio system gynllunio Ystadegau Gwladol sydd wedi ei seilio o amgylch Gweithgorau Thema.

- Gwneud yn siŵr bod yna ymateb digonol gan y llywodraeth i Adroddiad Allsopp ar yr angen am well ystadegau rhanbarthol ac is-ranbarthol.
- Ystyried pa mor ddigonol yw'r trefniadau gorfodi sy'n sicrhau bod y Côd Arferion Ystadegau Gwladol presennol yn cael ei barchu yn y llywodraeth.
- Archwilio'r trefniadau cyhoeddi y mae adrannau llywodraeth yn eu defnyddio i'r ystadegau swyddogol hynny sy'n deillio o systemau gweinyddol a systemau rheoli gwybodaeth.
- Cymryd camau i asesu lefel hyder y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol, a chanfod y rhesymau dros hyn, fel llinell sylfaen ar gyfer barnu tueddiadau yn y dyfodol.
- Datblygu cynlluniau am arolwg o ystadegau addysg (ysgol) a gwneud yr arolwg hwnnw yn 2004-05.
- Edrych sut y mae ystadegau yn cymharu ar draws y DU ac a yw gweinyddiaethau datganoledig yn derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd y Comisiwn yn sefydlu Is-bwyllgor Ystadegau Datganoli a Rhanbarthol.
- Ystyried ac adrodd yn ôl ar oblygiadau ystadegol datblygu 'cofrestri poblogaeth' o fewn y llywodraeth.
- Cyfrannu at y drafodaeth ynglŷn â swyddogaeth briodol ystadegau, ac ystadegwyr, wrth osod a monitro dangosyddion a thargedau gwasanaeth cyhoeddus.
- Edrych ymhellach ar y posibilrwydd i ystadegwyr llywodraeth gyflwyno cyfres fwy integredig o negeseuon am gymdeithas a'r economi.

Mae hon yn rhaglen waith sylweddol i'r Comisiwn a byddwn yn ceisio, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol, gweithio mewn partneriaeth â'r SYG ac adrannau llywodraeth eraill, y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol, y Cyngor Defnyddwyr Ystadegau a chyrff cyhoeddus eraill.

Pennod 6: Amcanion a pherfformiad

Perfformiad yn erbyn amcanion

Amcan	Perfformiad
Adolygu dulliau cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid.	Cynhaliom ddau gyfarfod gyda chadeiryddion grwpiau defnyddwyr a buom yn eistedd ar Gyngor y Defnyddwyr Ystadegau fel arsylwr. Buom yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Ystadegydd Gwladol a'i dîm. Rydym wedi ailwampio'n gwefan i wella'r gallu i chwilio. Buom yn cyfarfod budd-ddeiliaid allweddol yn yr Alban.
Datblygu ymchwil a chasglu gwybodaeth fel ein bod yn gallu ymateb i faterion cyfredol o sail dystiolaeth gadarn.	Fe sefydlom is-bwyllgor i lywio cynllunio ymchwil mwy systematig a phennu swydd newydd, Pennaeth Ymchwil. Cwblhawyd arolwg o ddiwygiadau i ystadegau economaidd a dechreuwyd arolwg o ystadegau iechyd. Rhoddwyd cynlluniau mewn lle i gael arolwg o ystadegau addysg mewn ysgolion. Rydym yn dilyn yr ymateboin gan yr Ystadegydd Gwladol i'n hadroddiad ar wneud rhagolygon yn y Cyfrifon Gwladol a'r astudiaeth ddibynadwyedd.
Cwblhau gwaith ar Gyfrifiad Poblogaeth 2001 a materion cyfrifiad tymor-hirach	Cyhoeddum ein hadroddiad interim ar y materion a godwyd gan Gyngor Dinas Westminster ym mis Hydref 2003 ac rydym yn disgwyl i ymchwil pellach gael ei gwblhau gan y SYG cyn paratoi'n hadroddiad terfynol.
Sicrhau bod y protocolau Côt Arferion yn cael eu rhoi yn eu lle cyn gynted ag y bo modd, ac yna monitro sut y maent yn gweithio	Gwnaethom sylwadau ar y protocolau drafft sy'n weddill. Buom yn monitro defnydd y Côt a gwneud sylwadau ar y datganiadau cydymffurfio a'r cynlluniau gweithredu drafft. Buom yn parhau i wthio am arweiniad i benaethiaid proffesiwn wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau o dan y Côt Arferion, a gwneud sylwadau am hynny.
Cwblhau'n hadolygiad o'r angen am ddeddfwriaeth ystadegau.	Cwblhawyd yr adolygiad yn ystod flwyddyn ac fe'i cyhoeddwyd ar 4 Mai 2004.

Rhestr o adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2003-04

Adroddiadau

Comisiwn Ystadegau Annual Report 2003-03. Llyfrfa Ei Mawrhydi, Gorffennaf 2003.

Open Meeting Report 17 July 2003. Comisiwn Ystadegau, Awst 2003.

The 2001 Census in Westminster: Interim Report. Comisiwn Ystadegau Adroddiad Rhif 15, Hydref 2003.

Report of the July 2003 Seminar on Health Statistics. Comisiwn Ystadegau Adroddiad Rhif 16, Tachwedd 2003.

Graham Mather, *Comparators to the Comisiwn Ystadegau.* Comisiwn Ystadegau Adroddiad Rhif 14, Rhagfyr 2003.

Georgina Fletcher-Cooke, *Effect of the Statistical Legislation Framework in the UK on the Work of the Government Statistical Service.* Comisiwn Ystadegau Adroddiad Rhif 13, Rhagfyr 2003.

Forecasting in the National Accounts at the Office for National Statistics. Comisiwn Ystadegau Adroddiad Rhif 12, gydag atodiad gan Michael P. Clements a David F. Hendry, Rhagfyr 2003.

Mary Sweetland, *Reliability Study Report.* Comisiwn Ystadegau Adroddiad Rhif 11, Rhagfyr 2003

Tystiolaeth a Sylwadau

Draft Protocol on User Consultation: response of the Statistics Commission. Ebrill 2003.

Draft Protocol on Revisions: response of the Statistics Commission. Mai 2003.

Draft Protocol on Statistical Integration: response of the Statistics Commission. Mehefin 2003.

Draft Protocol on Respondent Load: response of the Statistics Commission. Mehefin 2003.

Draft Protocol on Data Presentation, Dissemination and Pricing: response of the Statistics Commission. Mehefin 2003.

Draft Protocol on Data Matching: response of the Statistics Commission. Mehefin 2003.

Draft Protocol on Data Management: response of the Statistics Commission. Mehefin 2003.

Draft Protocol on Data Access and Confidentiality: response of the Statistics Commission Mehefin 2003.

Draft Protocol on Customer Service: response of the Statistics Commission. Mehefin 2003.

Evidence to the Royal Statistical Society Working Party on Performance Monitoring in the Public Services. Hydref 2003.

Evidence to the Treasury Sub-committee. Hydref 2003.

Evidence to the House of Lords Select Committee on Economic Affairs. Rhagfyr 2003.

Review of Statistics for Economic Policymaking – First Report: Sylwadau gan y Comisiwn Ystadegau. Chwefror 2004.

Mae'r uchod i gyd ar gael ar ein gwefan: www.statscom.org.uk.

Adnoddau

Roedd cyllid grant o hyd at £1.35 miliwn ar gael. Yr union wariant yn 2003-04 oedd £1.32 miliwn, gyda'r rhan fwyaf o hyn yn mynd at staffio, adeiladau a chostau ymchwil. Y flwyddyn nesaf mae'r cyllid grant yn codi i £1.75 miliwn er mwyn cyfarfod â chost posibl newid adeilad pan fydd y les yn dod i ben ym mis Mawrth 2005.

Y lefelau staffio presennol

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y Comisiwn staff o ddeg, yn cynnwys pump ar secondiad o'u cyflogwyr parhaol a phedwar ar gytundebau tymor-sefydlog gyda'n hadran noddi. Llenwyd un swydd gefnogol ar sail tymhorol. Bydd person arall ar secondiad yn cychwyn ar ddechrau Ebrill 2004.

Rheoli risg

Roedd prosesau rheoli ac adolygu risg yn digwydd drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn diweddarwyd y strategaeth risg, ac adolygwyd a diweddarwyd y gofrestr risg ym mis Gorffennaf a mis Ionawr. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac ystyried pob adroddiad archwilio mewnol ac allanol, datganiadau ariannol drafft a gweithredu trefniadau llywodraethu corfforol yn cynnwys y broses rheoli risg.

Atodiad A: Llyfryddiaeth

- [1] 'Official Statistics: Counting with confidence', *Journal of the Royal Statistical Society. Series A (Statistics in Society)*, 154 (1), 1991. pp.23-44.
- [2] *Open Government* (1993). London, HMSO. Cm 2290. 93p.
- [3] *Official Statistics Code of Practice* (1995). London, Office for National Statistics.
- [4] *Statistics: A Matter of Trust, a consultation document* (1998). London, The Stationery Office. Cm 3882. ISBN: 0-10-138822-5. www.archive.official-documents.co.uk/document/ons/govstat/report.htm
- [5] *Building Trust in Statistics* (1999). London, The Stationery Office. Cm 4412. 21p. ISBN: 0-10-144122-3. www.statistics.gov.uk/about_ns/Understanding.asp#documents
- [6] *Framework for National Statistics* (2000). London, TSO. 34p. ISBN: 185774-382-2. www.statistics.gov.uk/about_ns/downloads/FrameDoc1.pdf
- [7] House of Commons Treasury Committee (2001), *National Statistics, Second Report*. London, The Stationery Office. 67p. ISBN: 0-10-203301-3. HC 137. www.publications.parliament.uk/pa/cm200001/cmselect/cmtreasy/137/13702.htm
- [8] *National Statistics Code of Practice: Statement of Principles* (2002). London, TSO. 35p. ISBN: 0-11-703077-5. www.statistics.gov.uk/about_ns/cop/default.asp
- [9] Christopher Allsopp (2003), *Review of Statistics for Economic Policymaking: First report to the Chancellor of the Exchequer, the Governor of the Bank of England and the National Statistician*. Norwich, HMSO. 171p. ISBN 0-947819-77-0. www.hm-treasury.gov.uk/consultations_and_legislation/allsopp_review/consult_allsopp_back.cfm#first_report
- [10] Christopher Allsopp (2004), *Review of Statistics for Economic Policymaking – Final Report*. HMSO. 178p. ISBN 0-84532-013-1. www.hm-treasury.gov.uk/consultations_and_legislation/allsopp_review/consult_allsopp_index.cfm
- [11] *2001 Census in Westminster: Interim report* (2003) London, Statistics Commission. 58p. www.statscom.org.uk/media_pdfs/reports/Census_2001.pdf
- [12] *An Independent Review of Government Communications* (January 2004). Chaired by Bob Phillis. [Phillis Review]. Cabinet Office. 38p. www.gcreview.gov.uk/news/FinalReport.pdf
- [13] *Revisions to Economic Statistics* (2004). London, Statistics Commission. 3 vols. www.statscom.org.uk/media_html/reports/report_017/report_017-01.asp

- [14] *Legislation to Build Trust in Statistics* (2004). London, Statistics Commission. 193p. www.statscom.org.uk/media_html/reports/report_018/report_018-01.asp

Atodiad B: Geirfa

Grwpiauac ymdriniaeth ystadegau

Ystadegau Gwladol – y cynnyrch hynny sy'n cael ei gynhyrchu mewn cydymffurfriad â Chôd Arferion Ystadegau Gwladol.

Cwmpas (Ystadegau Gwladol) – yr ystod o ganlyniadau a ddynodir gan weinidogion fel Ystadegau Gwladol

Ystadegau swyddogol – cynnyrch ystadegol a baratowyd gan neu ar ran y llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys Ystadegau Gwladol a chynnyrch ystadegol eraill Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, ond gallai hefyd gynnwys ystadegau adrannol a gyhoeddwyd, a gynhyrchwyd gan swyddogion nad ydynt yn rhan o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth, yn ogystal ag ystadegau a gynhyrchwyd gan gyrrff cyhoeddus eraill.

Nodweddion cyffredinol ystadegau a systemau ystadegol

Integriti – defnyddir y term hwn gan y Comisiwn yn yr ystyr o annibyniaeth a rhyddid rhag ymyrraeth. (Caiff ei ddefnyddio weithiau gan eraill i gynnwys agweddau o ansawdd a chyflawnder yn ogystal).

Perthnasedd – y graddau y mae cynnyrch yn mynd i'r afael â chwestiynau pwysig o ran polisi neu atebolrwydd cyhoeddus.

Ansawdd – bod yn ddigon dibynadwy i'r diben y'u bwriadwyd hwy ac wedi eu seilio ar y fethodoleg orau oedd ar gael. Mae defnyddwyr angen gwybodaeth am ddibynadwyedd i farnu a yw ystadegau yn addas i'w diben arbennig. (Defnyddir y term gan eraill i gynnwys agweddau o berthnasedd a phrydlondeb hefyd.)

Dibynadwy – y syniad (teg) eu bod o integriti ac ansawdd uchel.

Prydlondeb– yn cael eu cynhyrchu i amserlen sy'n addas i'w diben(ion).

Dilysrwydd– a yw amcangyfrif yn mesur yr hyn y bwriedwyd iddo'i fesur; yn ymwneud â gwahaniaethau cysyniadol yn ogystal â gwallau mesur.

Dibynadwyedd – defnyddir y term hwn gan y Comisiwn mewn ystyr cyffredinol iawn i gynnwys pob agwedd o gywirdeb, perthnasedd a defnyddioldeb

Cywirdeb – y cyfuniad o fod yn fanwl gywir ac yn ddiduedd.

Tuedd – pa mor bell y mae cyfartaledd amcangyfrif yn gorwedd o wirfesur yr hyn y mae'n ei amcangyfrif.

Manyllder – y graddau y disgwylir ifesur amcangyfrif fod yn agos at ei gyfartaledd gwaelodol.

Prosesau

Asesu ansawdd – gwirio a yw data yn cwrdd â'r safonau ansawdd priodol.

Sicrhau ansawdd – sicrhau bod y data yn cwrdd â'r safonau ansawdd priodol.

Archwiliad ystadegol – gwerthusiad o'r prosesau lle mae set arbennig o ystadegau'n cael eu crynhoi a'u cynhyrchu.

Ymgynghoriad defnyddiwr – cael gwybod gan ddefnyddwyr pa fath o ystadegau y maen nhw eu heisiau/eu hangen a beth yw eu barn am y rhai y maent yn eu cael.

Ymatebolrwydd defnyddwyr – (gweler hefyd perthnasedd) ymgymryd a gweithredu ar ganlyniadau ymgynghoriad defnyddwyr.

Swyddogaethau

Defnyddwyr – unigolion a sefydliadau sy'n gwneud defnydd o ystadegau.

Darparwyr – y rheiny sy'n darparu data crai, er enghraifft drwy lenwi holiaduron, cymryd rhan mewn arolygon neu anfon gwybodaeth i mewn am eu busnesau.

Cyflenwyr – fel darparwyr.

Cynhyrchwyr – y rheiny sy'n cynhyrchu ystadegau o ddata crai, er enghraifft staff y SYG.

Pennaeth Proffesiwn – yr uwch unigolyn a enwebwyd sy'n gyfrifol i'r Ystadegydd Gwladol am integriti proffesiynol cynnyrch adrannau llywodraeth a chyrrff cysylltiedig sy'n cynhyrchu Ystadegau Gwladol neu ystadegau swyddogol, neu sydd â grŵp o ystadegwyr swyddogol.

Arall

Costau cydymffurfio – faint o amser, arian ac adnoddau eraill sydd eu hangen i ddarparu'r data crai y mae ystadegau'n cael eu crynhoi ohonynt.

Arferion cyhoeddi – sut y gwneir penderfyniadau am pa ddata i'w cyhoeddi i bwy a phryd.

Data crai – yr atebion unigol a'r holiaduron a gwblhawyd a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau.

Atodiad C: Rhestr o acronymau

CMC	Cynnyrch Mewnwladol Crynswth
CYF	Cymdeithas Ystadegol Frenhinol
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
ESRC	Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
MPA	Mynegrif Prisiau Adwerthol
NIESR	Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
SYG	Swyddfa Ystadegau Gwladol

Datganiadau Ariannol

[last page of text:

Cyhoeddwyd yn y DU i Lyfrfa Ei Mawrhydi Cyf
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 170563 07/04